

YMDDIRIEDOLAETH SHAW (CYMRU)



CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith
Gymraeg 1993

Cymeradwywyd y cynllun iaith gwirfoddol hwn gan Fwrdd yr Iaith
Gymraeg yn unol ag adran 14 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar ** **
200*

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



NOD

Mabwysiadodd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yr egwyddor y bydd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru yn ymdrin â'r Saesneg a'r Gymraeg yn gyfartal. Noda'r Cynllun hwn sut y bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, ac asiantaethau a sefydliadau eraill y mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn rhyngweithio â hwy. Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod systemau'r cwmni wedi'u darparu'n effeithiol i bawb sy'n dewis cyfathrebu â hwy yn y Gymraeg.

Cynnwys

Tudalen	Disgrifiad
4	Rhagair a Chyflwyniad
6	Manylion Cyswllt
7	Cynllunio a Darparu Gwasanaeth <ul style="list-style-type: none">• Polisiâu a Mentrau• Darparu Gwasanaethau• Safon Gwasanaeth yn y Gymraeg
10	Cyfathrebu â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg <ul style="list-style-type: none">• Gohebiaeth Ysgrifenedig• Cyfathrebu dros y Ffôn• Cyfarfodydd Cyhoeddus• Cyfarfodydd Wyneb yn Wyneb• Cyfathrebu Arall â'r Cyhoedd
13	Delwedd Gyhoeddus <ul style="list-style-type: none">• Hunaniaeth Gorfforaethol• Arwyddion• Dogfennau a Deunydd Cyhoeddedig ac Argraffedig• Ffurflenni a Deunydd Esboniadol• Datganiadau i'r Wasg• Hysbysebu a Gweithgareddau Cyhoeddusrwydd• Hysbysiadau Cyhoeddus Swyddogol a Hysbysebu Recriwtio
17	Gweithredu a Monitro'r Cynllun <ul style="list-style-type: none">• Staffio• Dysgu Cymraeg• Recriwtio• Hyfforddiant Galwedigaethol• Trefniadau Gweinyddol• Gwasanaethau a Ddarperir ar ran Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru)• Partneru yn y Gymuned Leol• Monitro• Targedau• Cyhoeddi Gwybodaeth
25	Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun
25	Arweiniad i'r Staff
26	Cynllun Gweithredu

1. Rhagair

- 1.1** Mae Ymddiriedolaeth Shaw yn elusen genedlaethol sy'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ddifreintiedig yn y farchnad lafur oherwydd anabledd, afiechyd neu amgylchiadau cymdeithasol. Ni yw'r darparwr mwyaf o wasanaethau cyflogaeth i bobl anabl yn y DU.
- 1.2** Bydd Ymddiriedolaeth Shaw yn cynorthwyo miloedd o bobl anabl a difreintiedig yn y DU i gyflawni eu nodau datblygiad personol a chyflogaeth. Gwnawn hyn drwy:-
- Wasanaethau cyflogaeth a ariannir gan y llywodraeth i gynorthwyo pobl sy'n symud o fudd-daliadau i waith, gydag arweiniad ar ganfod swydd, hyfforddiant a budd-daliadau
 - Gweithgareddau cyn-gyflogaeth mewn amgylchedd cefnogol
 - Hyfforddiant achrededig, cysylltiedig â gwaith
 - Cefnogaeth ar gyfer mwy o annibyniaeth i bobl anabl
 - Creu swyddi drwy fenter gymdeithasol
 - Gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr, awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau ieuchyd
- 1.3** Mae llawer o'n gwasanaethau wedi eu teilwra ar gyfer gofynion penodol pobl sydd â phroblemau megis afiechyd meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau neu anableddau dysgu. Rydym yn arbennig o falch o'r gwasanaethau a gynigiwn a'r modd cyfartal ac amrywiol y darparwn y gwasanaethau hynny.
- 1.4** Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob sefydliad cyhoeddus gael Cynllun Iaith Gymraeg ar waith. Sicrhau hyn bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn eu hiaith eu hunain fel mater o arfer.
- 1.5** Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod ymrwymiad cyfreithiol uniongyrchol ar sefydliadau gwirfoddol i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, gwnaed y penderfyniad i ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg fel arwydd o ymrwymiad clir Ymddiriedolaeth Shaw i'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg. Hefyd, bydd yn galluogi gwasanaethau Ymddiriedolaeth Shaw i ddod yn hygyrch i gynulleidfa ehangach fyth - egwyddor sydd wrth wraidd gwaith Ymddiriedolaeth Shaw. I ddangos yr ymrwymiad cyfeirir at y tîm rhanbarthol yng Nghymru fel Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru).

1.6 Canran fechan o siaradwyr Cymraeg sydd gan Ymddiriedolaeth Shaw, ond mae'r nifer yn tyfu'n gyflym. Bydd canran y boblogaeth Gymraeg eu hiaith yn dylanwadu ar gyflymder ac ehangder cynllun y cwmni ar gyfer y Gymraeg.

Yn ôl Cyfrifiad 2001 mae tua 560,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghymru heddiw. Gydag un o bob chwe aelod o boblogaeth y DU yn anabl gallai Cynllun Iaith Gymraeg o bosibl alluogi i wasanaethau Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) fod yn gwbl hygyrch yn newis iaith unigolyn i gynulleidfa lawer ehangach. Yn y blynyddoedd diwethaf, tyfodd poblogrwydd y Gymraeg. Mae mwy a mwy o blant yn dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae dwyieithrwydd yn dod i gael ei dderbyn fel rhan gwbl naturiol o fywyd pob dydd.

Fel rhan o ymrwymiad y cwmni, rydym yn cydnabod ac yn cefnogi dibenion y Cynllun Iaith Gymraeg mewn hyrwyddo adfywiad y Gymraeg drwy Gymru benbaladr.

Gobeithia Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) gyflawni ein nod o sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl yn ein holl weithgareddau. Ein nod yw cyflawni ein hamcanion o sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pawb drwy'r blaenoriaethau lleol a chenedlaethol canlynol: -

- Gwasanaethau Byw'n Annibynnol
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
- Ymwybyddiaeth Anabledd
- Menter Gymdeithasol

Bydd ein Cynllun Iaith Gymraeg yn effeithio ar yr holl weithgareddau uchod o fewn Cymru gan gynnwys gwasanaethau cefnogi megis Adnoddau Dynol, Marchnata, Codi Arian a Masnachu. Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn cydnabod bod defnyddwyr gwasanaethau yn teimlo'n fwy cyfforddus ac yn gallu cyfathrebu eu barn a'u hanghenion a derbyn cefnogaeth yn well yn eu hiaith gyntaf. Mae gwasanaethau a gweithgareddau wedi eu lleoli ym mhob rhan o Gymru; gobeithia ein Cynllun Iaith Gymraeg gydnabod a chofleidio'r amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol a geir ar draws y wlad.

1.7 Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg hwn oddi wrth:

Marilyn Morgan
Rheolwr Ansawdd a Pherfformiad
Swyddfa Ranbarthol Cymru
Canolfan Gweithredu Anabledd
Y Cwrt
Parc Busnes D'arcy
Llandarcy
Castell-nedd
SA10 6EJ

Ffôn: 01792 321006
Ffacs: 01792 325380
Ffôn Testun: 01792 325379

Mae fersiwn PDF o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn i'w gael ar wefan
Ymddiriedolaeth Shaw, www.shaw-trust.org.uk

Os hoffech gopi o'r Cynllun Iaith Gymraeg mewn fformat arall, cysylltwch â
Marilyn Morgan drwy'r manylion uchod.

2. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH

2.1 Polisiâu a Mentrau Newydd

2.1.1 Pan fydd Ymddiriedolaeth Shaw yn cynllunio ac yn llunio polisiâu neu fentrau newydd, bydd yn asesu'r canlyniadau ieithyddol i sicrhau eu bod yn bodloni'r ymrwymadau a roddir yn y cynllun hwn. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw yn defnyddio polisiâu a mentrau newydd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i fynd a'r sefydliad yn nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb lle bo'n ymarferol. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw yn sicrhau bod y mesurau sydd i'w cael yn y cynllun hwn yn cael eu cymhwyso i bolisiâu a mentrau newydd yn unol â'r egwyddor hon.

2.1.2 Os cynigir unrhyw bolisiâu neu fentrau newydd a fydd yn effeithio Cynllun Iaith Gymraeg y cwmni, neu gynllun sefydliad arall, ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ni chaiff y cynllun ei newid heb gytundeb y Bwrdd.

2.1.3 Caiff staff sydd â rhan mewn paratoi a rhoi'r polisiâu a'r mentrau newydd ar waith eu gwneud yn ymwybodol o ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg. Caiff arweiniad, yn cynnwys Hyfforddiant Ymwybyddiaeth, eu rhoi i staff ar sut i asesu effaith debygol y cynigion newydd ar y cynllun a'r camau sydd eu hangen i sicrhau y cydymffurfir â'r mesurau hyn.

2.2 Darparu Gwasanaethau

2.2.1 Mae'r gwasanaethau a gynigir gan Ymddiriedolaeth Shaw ar gyfer y cyhoedd yn rhai eang iawn ac maent o dan reolaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Tîm Rheoli Strategol.

2.2.2 Ni chaiff yr holl wasanaethau eu darparu'n uniongyrchol gan Swyddfeydd Ymddiriedolaeth Shaw. Caiff rhai eu darparu ar ran Ymddiriedolaeth Shaw gan asiantaethau neu gyrff dan gontract i Ymddiriedolaeth Shaw neu wedi'u rheoli drwy swyddogaethau rheoleiddiol. Caiff yr asiantaethau hyn eu hysbysu o ofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg a byddant yn derbyn canllawiau ysgrifenedig sydd wedi eu seilio ar y cynllun.

2.2.3 Mae meysydd allweddol o gyfrifoldeb yn cynnwys: -

- Ymgysylltu â phobl anabl a difreintiedig yng Nghymru
- Gwasanaethau Cyflogaeth i gefnogi pobl yn symud o fudd-daliadau i waith
- Hwyluso dysgu, datblygiad a sgiliau gwaith/bywyd sy'n hygyrch i bawb
- Gweithio gyda'r gymuned fusnes i godi ymwybyddiaeth a sicrhau cyfle cyfartal

- Gweithio tuag at gymuned gynhwysol yng Nghymru drwy weithio mewn partneriaeth, adfywio a chynaliadwyedd
- Meithrin ein treftadaeth o ran iaith a diwylliant

2.2.4 Mae'r ffordd y caiff gwasanaeth ei ddarparu i'r cyhoedd yn amrywio yn ôl ei natur a'i faint. Darperir rhai gwasanaethau o brif ganolfannau swyddfeydd Ymddiriedolaeth Shaw tra bod eraill yn gweithredu drwy ganolfannau allanol, cartrefi swyddogion, sefydliadau a gweithleoedd eraill.

2.2.5 Mae'n fwriad gan Ymddiriedolaeth Shaw i ddarparu gwasanaeth cyson a systematig ar gyfer siaradwyr Cymraeg o fewn ei wasanaethau i'r cyhoedd. Bydd hyn yn wir am bob gwasanaeth a ddarperir o bencadlys y Swyddfa Ranbarthol a'r prif swyddfeydd.

2.2.6 Bydd gan y cleientiaid hynny sy'n byw mewn ardaloedd yng Nghymru lle bydd gwasanaeth drwy'r Gymraeg yn debyg o fod yn anfynych y modd i gyrchu gwasanaeth yn y Gymraeg fel arfer pan fydd ei angen.

2.2.7 Gan na fydd yn ymarferol i ddarparu'r holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, y bwriad yw darparu gwasanaeth cystal ag sy'n bosibl. Caiff swyddogion sydd heb fod yn siarad Cymraeg eu darparu â gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, manylion cyswllt Swyddogion sy'n siarad Cymraeg, a sut y gellir cysylltu â hwy.

Gwneir pob gweithiwr yn ymwybodol o'r cynllun, yr ymrwymadau sydd ynddo a'r systemau, gweithdrefnau a'r gwasanaethau sydd ar waith i fodloni'r ymrwymadau hynny.

2.2.8 Darperir rhai gwasanaethau lleol gan sefydliadau a chyrrff cyhoeddus eraill. Mae Ymddiriedolaeth Shaw yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau o'r fath, neu fod ganddi ryw gyfrifoldeb am eu gwaith. Drwy ei pherthynas gyda'r sefydliadau hyn, bydd Ymddiriedolaeth Shaw yn annog, hwyluso neu'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy roi cyhoeddusrwydd i'w chynllun a chynnig cyngor a chymorth.

2.2.9 Yn wir, mae gan nifer o'r cyrrff y mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gweithio gyda hwy hefyd gynllun iaith Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, deuir i gytundeb rhwng sefydliadau i sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio gyda'u cynllun hwy eu hunain.

2.2.10 Mewn amgylchiadau lle mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn darparu gwasanaethau, prosiectau a mentrau ar ran corff cyhoeddus, bydd angen darparu'r cyfryw wasanaethau yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y corff arbennig hwnnw. Mewn amgylchiadau o'r fath caiff y ddarpariaeth ei monitro yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ei hun i sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth iaith Gymraeg.

2.3 Safon Gwasanaeth yn y Gymraeg

- 2.3.1** Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn croesawu bob ymwneud yn y Gymraeg neu'r Saesneg a'i nod yw darparu gwasanaeth o safon yr un mor effeithiol yn y ddwy iaith. Caiff egwyddor darparu gwasanaeth priodol yn y ddwy iaith ei ddatgan mewn dogfennau allweddol megis cynlluniau gwasanaeth a dogfennau polisi.
- 2.3.2** Y nod fydd darparu safon uchel o wasanaeth ym mhob agwedd o waith Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru), yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn unol ag ymrwymadau'r cynllun hwn. Caiff safon y gwasanaeth hwn ei adolygu a'i fonitro'n gyson gyda'r nod o wella'r safon yn barhaus.
- 2.3.2** Nod Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yw sicrhau cysondeb yn safon y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ym mhob agwedd o'i wasanaethau yn y rhanbarth.

3. CYFATHREBU Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

3.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

3.1.1 Bydd croeso i'r cyhoedd gyfathrebu ag Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ysgrifenedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn cyhoeddi bod croeso i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol gysylltu ag Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) drwy ddulliau ysgrifenedig, llafar neu electronig yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff llinell safonol ei chynnwys ar bapur pennawd yn datgan bod Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn croesawu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.1.2 Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Atebir pob gohebiaeth ysgrifenedig, boed ar ffurf llythyr, ffacs neu e-bost, yn iaith yr ohebiaeth/ymholiad gwreiddiol.

Lle bo aelod o staff yn derbyn gohebiaeth Gymraeg ac yn methu deall Gymraeg, bydd cydweithiwr dwyieithog yn cyfieithu'r ohebiaeth.

3.1.3 Bydd yr amseroedd ymateb yr un wrth ateb llythyron Cymraeg ag ydynt wrth ateb llythyron Saesneg. Ni fydd mater cyfieithu yn cyfiawnhau gohirio wrth ateb gohebiaeth.

3.1.4 Os bydd Ymddiriedolaeth Shaw yn ymwybodol ei bod yn well gan unigolyn, grŵp neu sefydliad dderbyn llythyron y Gymraeg, yna bydd y llythyron a ddechreuir gan Ymddiriedolaeth Shaw yn Gymraeg. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw yn sefydlu cronfa ddata o bobl a sefydliadau sy'n dymuno gohebu neu ymdrin â materion drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y gronfa ddata yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

3.1.5 Caiff cylchlythyron a llythyron safonol i'r cyhoedd fel arfer eu cyhoeddi'n ddwyieithog pan fo hynny'n ymarferol.

3.1.6 Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, darperir cyfieithu mewnol gan staff Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru). Fodd bynnag, ar gyfer darnau o waith hwy a mwy cymhleth, efallai y defnyddir gwasanaeth cyfieithu allanol.

3.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

- 3.2.1** Mae croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ddelio ag Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) dros y ffôn, hefyd mae croeso i alwadau Saesneg neu Gymraeg ar ffôn testun.
- 3.2.2** Bydd y cyfarchiad agoriadol ar y switsfwrdd yn ddwyieithog yn amodol ar hyfforddiant parhaus. Bydd staff Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ymateb i bob galwad ffôn allanol gyda'r cyfarchiad dwyieithog,

‘Bore da / Good morning, Shaw Trust (Cymru)’
neu ‘Prynhawn da / Good afternoon, Shaw Trust (Cymru)’

- 3.2.3** Os bydd y person sy'n galw yn siarad Cymraeg a'r Swyddog sy'n ateb yn methu â siarad Cymraeg, bydd y swyddog yn egluro bod ef/hi yn methu â siarad Cymraeg ac yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg. Caiff yr alwad ei throsglwyddo i siaradwr Cymraeg sy'n gallu ymdrin â'r mater neu, os na fydd un ar gael, caiff y galwr ei hysbysu y bydd siaradwr Cymraeg yn cysylltu'n ôl cyn gynted â phosibl. Efallai y bydd galwadau o natur dechnegol yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn peri bod y cam hwn yn gorfod digwydd.
- 3.2.5** Bydd y neges a recordir ar brif beiriant ateb ffôn Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ddwyieithog. Bydd croeso i'r rhai sy'n ffonio adael negeseuon yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff unrhyw negeseuon a adewir ar y ffôn ateb eu hateb yn iaith y sawl sy'n gadael y neges.
- 3.2.6** Yn dilyn sgwrs ffôn Gymraeg bydd pob gohebiaeth ddilynol, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg os mai dyna ddewis y galwr.

3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 3.3.1** Bydd cyfle a chroeso i'r rhai hynny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru), lle caiff y cyhoedd yr hawl i siarad, ddefnyddio'r iaith o'u dewis. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) am gael rhybudd ymlaen llaw o ddewis iaith y rhai hynny sy'n bwriadu mynychu er mwyn darparu cyfleusterau cyfieithu priodol.
- 3.3.2** Caiff canllawiau gweithredu ar wneud darpariaeth ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg eu dosbarthu i'r staff sy'n ymwneud â threfnu cyfarfodydd cyhoeddus yn wyneb yr ymrwymiad a wnaed yn **3.3.1** a bydd ganddynt siaradwyr Cymraeg yn bresennol fel y bo angen.
- 3.3.3** Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn trefnu ac yn cynnal llawer o gyfarfodydd yn ychwanegol at y rhai hynny sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfryw gyfarfodydd, gan roi gwybod am eu dewis iaith ymlaen llaw i sicrhau bod swyddogion yn paratoi ar gyfer cydraddoldeb

dewis. Heb rybudd o'r fath gall oedi ddigwydd. Bydd y llythyr gwahoddiad neu'r modd o gyfathrebu cyntaf yn rhoi dewis o iaith. Fodd bynnag, er mwyn bod yn rhesymol ac ymarferol, mae'n rhaid i Ymddiriedolaeth Shaw gael ei hysbysu o hyn ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol neu fod cyfieithydd gydag offer proffesiynol yn bresennol.

3.3.4 Bydd pob cyhoeddusrwydd ynglŷn â chynadleddau a chyfarfodydd agored yn ddwyieithog.

3.3.5 Caiff trefniadau eu gwneud i Swyddfeydd Ymddiriedolaeth Shaw sydd heb siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn ymateb i geisiadau am gyfarfodydd yn y Gymraeg. Felly bodlonir yr egwyddor o gynnig dewis iaith.

3.4 Cyfarfodydd Wyneb yn Wyneb

3.4.1 Yn y swyddfeydd hynny lle bydd aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn ymweld yn rheolaidd, pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl bydd gan Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol i alluogi'r ymwelydd i gyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg.

3.4.2 Mewn swyddfeydd lle bydd ond ychydig o ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg yn galw, efallai na fydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith ar gyfer aelodau o'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn trefnu bod aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn cysylltu â'r unigolyn ac yn aildrefnu'r ymweliad os bydd angen.

3.5 Cyfathrebu Arall â'r Cyhoedd

3.5.1 Bydd y mesurau a nodir yn **3.4.1** a **3.4.2** uchod yn berthnasol ar gyfer dulliau eraill o ymwneud â'r cyhoedd, megis cyfathrebu drwy gyfrifiadur, cysylltiadau teledu neu systemau uchel seinydd. Bydd pob deunydd sy'n ymwneud ag Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ar wefan Ymddiriedolaeth Shaw yn ddwyieithog.

4. DELWEDD GYHOEDDUS YMDDIRIEDOLAETH SHAW (CYMRU)

4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

4.1.1 Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) o fewn Cymru, yn cynnwys ei chyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall, yn ddwyieithog lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Bydd hynny hefyd yn wir am holl ddeunydd corfforaethol Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru), yn cynnwys papur pennawd, slipiau cyfarch, dalennau ffacs, cardiau busnes, bathodynau enw, arddangosfeydd a chyhoeddiadau, ac mewn amgylchiadau eraill megis ar arwyddion, cerbydau ac adeiladau pan fo hynny'n briodol a phosibl.

4.2 Arwyddion

4.2.1 Bydd pob arwydd mewnol ac allanol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd mewn mannau lle mae gan y cyhoedd fynediad rhydd iddynt ar eiddo Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ddwyieithog.

4.2.2 Bydd arwyddion eraill y mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gyfrifol amdanynt yn dod yn ddwyieithog maes o law. Wrth osod arwyddion newydd a rhai sy'n disodli hen arwyddion fel rhan o waith cynnal a chadw, byddant yn dod yn ddwyieithog.

4.2.3 Bydd arwyddion newydd a rhai sy'n disodli hen rai ar gerbydau Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ddwyieithog neu mewn fersiynau cyfatebol Cymraeg a Saesneg.

4.2.4 Bydd unrhyw arwydd newydd neu rai yn disodli hen rai, yn cynnwys arwyddion allanol, y mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gyfrifol amdanynt, yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd unrhyw enwau brodorol yn parhau yn yr iaith 'leol hysbys' ac eithrio lle bo Seisnigeiddio wedi digwydd.

4.2.5 Lle darperir arwyddion dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn parchu egwyddor cydraddoldeb.

4.2.6 Caiff cyfarwyddyd ei gyflwyno i staff ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, cynhyrchu a chodi arwyddion i sicrhau y cedwir at bolisi Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru).

4.2.7 Bydd Ymddiriedolaeth Shaw yn annog cwmnïau allanol hefyd i roi cydraddoldeb i'r Gymraeg.

4.3 Dogfennau a Deunydd Cyhoeddedig ac Argraffedig Cyhoeddus

4.3.1 Caiff dogfennau cyffredinol a fwriedir ar gyfer defnydd y cyhoedd eu comisiynu'n ddwyieithog a, lle bo'n briodol ac yn ymarferol yn ariannol,

caiff deunydd arall ei gynhyrchu naill ai yn Gymraeg neu Saesneg ar wahân.

- 4.3.2** Ar gyfer dogfennau sydd wedi eu cyfeirio at garfannau neu grwpiau arbennig o'r cyhoedd, caiff y penderfyniad i gyhoeddi'n ddwyieithog neu mewn un iaith, Cymraeg neu Saesneg, ei benderfynu gan natur y deunydd a'r gynulleidfa darged.
- 4.3.3** Pan godir tâl ni fydd pris dogfennau dwyieithog yn fwy nag am fformat un iaith. Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y pris yr un fath i'r ddau.
- 4.3.4** Caiff cyfarwyddyd ar y polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog eu paratoi ar gyfer staff, dylunwyr allanol a chyhoeddwr. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhad o'r mathau a'r categorïau o gyhoeddiadau a fydd yn ddwyieithog, y rhai hynny y gellir eu cyhoeddi mewn fersiynau ar wahân a'r rhai hynny a fydd yn fater o ystyriaeth, ynghyd â chynghor.
- 4.3.5** Caiff pob deunydd a gyfieithir ei brawf-ddarllen gan aelod o staff sydd â'r sgiliau priodol neu gan wirwyr allanol priodol cyn cyhoeddi.

4.4 Ffurflenni a Deunydd Esboniadol

- 4.4.1** Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn cynhyrchu ffurflenni ar gyfer defnydd y cyhoedd a'n cleientiaid. Mewn achosion lle yr ystyrir bod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn briodol, caiff y ddau fersiwn eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd, a byddant ar gael i'r un graddau, fel arfer â neges arnynt yn datgan bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall. Caiff y rhain eu blaenoriaethu fel ag yn **4.3.1**.
- 4.4.2** Mabwysiadir rhaglen fesul cam ar gyfer sefydlu dwyieithrwydd ar ffurflenni a deunydd argraffedig. Caiff cyfarwyddyd ysgrifenedig ei gyflwyno i'r staff ac eraill sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu ffurflenni. Mae enghreifftiau o ffurflenni o'r fath yn cynnwys:

- Gwahoddiadau
- Hysbysiadau Cyhoeddus
- Dalenni Ffeithiol
- Gweithdrefnau
- Derbynebaw
- Anfonebau

4.5 Datganiadau i'r Wasg

- 4.5.1** Yn arferol caiff datganiadau i'r Wasg a'r cyfryngau yng Nghymru eu cyflwyno yn Saesneg yn unig. Caiff fersiwn Gymraeg ei chyflwyno i'r cyfryngau Cymraeg os ystyrir hynny'n briodol ac yn arbennig o ran cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg, Eisteddfod leol a'r Ddeddf ei

hun. Fodd bynnag gyda hyfforddiant parhaus byddwn yn cynyddu'r gwasanaeth.

4.5.2 Caiff ceisiadau gan y cyfryngau eu cyfeirio at ein hadran Cysylltiadau Cyhoeddus a leolir yn ein Prif Swyddfeydd yn Lloegr. Fodd bynnag, ar gais, bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn sicrhau bod llefarydd dwyieithog ar gael i roi cyfweiliadau i'r cyfryngau.

4.6 Hysbysebu a Gweithgareddau Cyhoeddusrwydd

4.6.1 Lle bo Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w gwasanaethau a'i gweithgareddau yng Nghymru drwy gyfrwng arddangosfeydd, arddangosiadau a chyflwyniadau bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog yn ôl y gofyn. Gall arddangosiadau fodd bynnag, gynnwys eitemau o lenyddiaeth sydd heb fod ar gael, neu sydd eto heb eu cynhyrchu, yn y Gymraeg.

4.6.2 Caiff arddangosfeydd lleol, stondinau gwybodaeth gyhoeddus ac arddangosiadau eu trefnu o bryd i'w gilydd gan wasanaethau neu asiantau Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ac yn yr achos hwnnw bydd y cyflwyniad yn ddwyieithog, ond efallai y bydd y graddau y byddant yn ddwyieithog yn amrywio yn ôl yr ardal, natur yr arddangosiadau ac argaeledd y deunydd.

4.6.3 Caiff unrhyw lenyddiaeth megis pamffledi, llyfrynau a thafleuni a gynllunnir, er enghraifft, i hyrwyddo, rhoi cyhoeddusrwydd neu esbonio cynlluniau, polisïau, gweithdrefnau, deddfwriaeth neu wasanaethau o fewn y rhanbarth, eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

4.6.4 Os bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn cynnal ymgyrch hysbysebu neu hyrwyddo yng Nghymru drwy gyfrwng y wasg, teledu, radio, sinema, poster, byrddau hysbysebu, negeseuon electronig neu systemau uchel seinyddion, bydd yn defnyddio'r ddwy iaith ac yn penderfynu ar y trefniadau yn ôl y deunydd pwnc, y dull a ddefnyddir a'r gynulleidfa darged.

4.6.5 Gwneir staff ac eraill sydd â rhan yn y cynllunio, dylunio a chynnal yr ymgyrchoedd hysbysebu, cyhoeddusrwydd neu ymchwil marchnad yn ymwybodol o ofynion y cynllun a rhoddir cyfarwyddyd iddynt ynglŷn â sut i'w weithredu.

4.7 Hysbysiadau Cyhoeddus Swyddogol a Hysbysebu Recriwtio

4.7.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff sy'n ymddangos yng Nghymru yn ymddangos yn Saesneg.

4.7.2 Bydd hysbysiadau a hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau lleol a chylchgronau fel arfer yn ymddangos yn iaith y cyhoeddiad.

- 4.7.3** Bydd hysbysiadau a hysbysebion mewn papurau a chylchgronau Cymraeg fel arfer yn Gymraeg yn unig a'r rhai hynny a gyhoeddir ym mhrif bapurau a chylchgronau'r DU fel arfer yn y Saesneg yn unig.
- 4.7.4** Caiff hysbysebion recriwtio ar gyfer swyddi y mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar eu cyfer eu hysbysebu yn y Gymraeg (gyda chrynodeb yn Saesneg). Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae gwybodaeth o'r Gymraeg yn ddymunol ar eu cyfer yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yn bennaf yng Nghymru, yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg drwy'r DU.

O ran swyddi sy'n cynnwys Cymraeg fel Hanfodol, Dymunol neu'n briodwedd amherthnasol yn y fanyleb person, bydd y personau perthnasol yn darparu cyfarwyddyd ar lunio hysbysebion recriwtio a hysbysiadau cyhoeddus.

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

5.1 Staffio

- 5.1.1** Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon mor uchel â phosibl drwy gyfrwng y Gymraeg fel ag a wna ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Saesneg. Er mwyn sicrhau, dros gyfnod, bod Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gallu darparu ei gwasanaethau yn y Gymraeg i safon uchel, bydd yn mabwysiadu'r camau a nodir rhwng 5.1.2 a 5.1.10.
- 5.1.2** Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn penderfynu p'un a oes swyddi penodol lle mae gallu yn y Gymraeg yn hanfodol neu ddymunol.
- 5.1.3** Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn cynnal arolygon i ganfod nifer y staff sy'n siarad Cymraeg neu sydd yn dysgu'r Gymraeg a'u lleoliad o fewn y sefydliad. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) hefyd yn cynnal Strategaeth Sgiliau Ieithyddol ar y swyddi newydd a'r swyddi presennol i gyd fel rhan o'i chynllunio adnoddau dynol. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i ddynodi'r swyddi a'r lleoliadau swyddfa hynny lle mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol a bydd yn paratoi'r disgrifiadau swydd yn unol â hynny.
- 5.1.4** Os penderfynir, o ganlyniad i baragraffau **5.1.2** a **5.1.3**, bod angen siaradwyr Cymraeg mewn rhai swyddi, dyfeisir strategaeth i fodloni'r gofynion hyn.
- 5.1.5** Ni roddir pwysau ar staff i symud swydd nac i ddilyn hyfforddiant yn erbyn eu hewyllys ar sail eu gallu ieithyddol yn unig. Caiff pob penodiad ei wneud ar deilyngdod ac yn unol â pholisïau cyfle cyfartal a deddfwriaeth cyflogaeth, yn amodol ar ymgynghoriad a chytundeb gan unrhyw staff y gallai hyn fod yn berthnasol iddynt. Bydd y mesurau a gynhwysir mewn strategaeth o'r fath yn cynnwys y rhai hynny a restrir isod.
- Ad-drefnu dyletswyddau a chyfrifoldebau staff;
 - Recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi penodol lle mae'n hanfodol pan ddigwydd swydd wag neu pan gaiff swydd newydd ei chreu;
 - Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gweithredu polisi dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg;
 - Hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff.
- 5.1.6** Caiff rhaglen ei pharatoi sy'n dynodi blaenoriaethau mewn rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith. Bydd rheolwyr yn gyfrifol am gyflwyno a monitro'r rhaglen o fewn eu hadrannau ac am gymryd camau os na

fydd y nifer y siaradwyr Cymraeg mewn meysydd gwasanaeth allweddol yn ddigonol.

5.1.7 Mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau, y mae llawer ohonynt angen sgiliau arbenigol proffesiynol a thechnegol i'w cyflawni. Ni fydd yn ymarferol i bob agwedd o bob gwasanaeth gael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bydd y staff yn gwneud eu gorau i gynorthwyo'r cyhoedd i gael gwasanaeth o safon uchel. Y nod, dros amser ac fel y bydd y cyfleoedd yn codi, fydd adeiladu cyflenwad o Swyddogion all gynorthwyo'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith o fewn gwasanaeth integredig. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn cynnal cronfa ddata o'r staff hynny sydd â sgiliau digonol i ddelio â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y gronfa ddata hon ei rhoi ar gael i staff yn swyddfeydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ac Ymddiriedolaeth Shaw. Efallai y gofynnir i'r tîm hwn o staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i:

- Gyfieithu ac ymateb i ohebiaeth Gymraeg
- Prawf ddarllen deunydd a gyfieithwyd
- Ymateb i ymholiadau ffôn Cymraeg
- Cynnal sgysiau wyneb yn wyneb yn Gymraeg
- Rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwaith cyfieithu cyffredinol
- Annog a chefnogi staff a gwirfoddolwyr eraill i ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau iaith

Mae'r rolau hyn fodd bynnag yn gwbl wirfoddol ac fe'u cyflawnir fel dyletswyddau ychwanegol at faich gwaith yr unigolyn ei hun. Ni orfodir aelodau staff a gwirfoddolwyr i dderbyn gwaith nad ydynt yn barod i'w wneud, nac yn gallu ei wneud, mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae cyfieithu yn sgil arbenigol ac ni ddylid disgwyl i unrhyw aelod o'r staff ei wneud heblaw eu bod wedi'u cyflogi i wneud hynny. Caiff y gronfa ddata ei monitro yn barhaus.

5.1.8 Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei brif ffrydio gyda deddfwriaeth cyfle cyfartal arall y sefydliad. Bydd Rheolwr Rhanbarthol Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn gweithio gyda phrif swyddfa Ymddiriedolaeth Shaw i sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei dderbyn fel rhan annatod o bolisiau corfforaethol Ymddiriedolaeth Shaw.

5.2.1 Dysgu Cymraeg

5.2.1 Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn annog a chefnogi aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg. Nid yw hyn fodd bynnag yn orfodol - ni roddir pwysau ar aelodau staff a gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant yn erbyn eu hewyllys. Ni fydd rhai sydd heb fod yn gallu siarad y Gymraeg yn teimlo dan fygythiad nac o dan anfantais oherwydd eu gallu ieithyddol.

- 5.2.2** Bydd y flaenoriaeth hyfforddi yn annog ac yn cefnogi aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg neu wella eu Cymraeg.
- 5.2.3.** Caiff rhaglen hyfforddiant Cymraeg, sy'n bodloni anghenion Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) o ran gweithredu'r cynllun, ei datblygu gan y Rheolwr Rhanbarthol mewn ymgynghoriad â rheolwyr eraill ynglŷn ag anghenion eu hadrannau. Caiff y ddarpariaeth hyfforddi ei monitro'n barhaus a chaiff blaenoriaethau eu hailasesu lle bo angen hynny.
- 5.2.4** Caiff camau eu cymryd i ganfod anghenion ac amcanion hyfforddiant pob gwasanaeth yn ogystal â budd gweithwyr unigol a'u barn am eu hanghenion hyfforddiant iaith Gymraeg. Bydd rheolwyr yn asesu'r anghenion penodol ar gyfer dysgu a gwella sgiliau iaith Gymraeg ymhlith eu staff, mewn ymgynghoriad â'r Adran Adnoddau Dynol. Lle caiff angen ei dynodi, caiff hyfforddiant addas ei gynnig a'i drefnu yn unol â gofynion y gwasanaeth ac argaeledd adnoddau.

5.3 Recriwtio

- 5.3.1** Caiff gallu ieithyddol ei ystyried fel un o'r nifer o sgiliau perthnasol wrth benodi staff.
- 5.3.2** Bydd rheolwyr Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn archwilio anghenion y gwasanaeth ac yn sicrhau'r meysydd o flaenoriaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr dwyieithog er mwyn bodloni gofynion y cynllun. Wrth wneud hynny byddant yn ystyried y sefyllfaoedd lle mae recriwtio Swyddogion Dwyieithog yn hanfodol neu'n ddymunol er mwyn darparu gwasanaeth mor llawn â phosibl. Lle yr ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol, caiff hynny ei ddatgan mewn hysbysebion swyddi.
- 5.3.3** Mewn sefyllfaoedd lle mae'n profi'n anodd penodi staff addas sy'n siaradwyr Cymraeg i swyddi lle yr ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yr arfer fydd naill ai:
- Gwneud y penodiad gyda'r ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg gyda chefnogaeth y sefydliad; neu
 - Ad-drefnu'r gwasanaeth neu ddynodi trefniadau amgen o fewn yr adrannau i ddarparu'r sgil yn y gweithle drwy ddefnyddio sgiliau'r staff presennol mewn meysydd gwasanaeth eraill.
- 5.3.4** Mae Ymddiriedolaeth Shaw wedi mabwysiadu polisi swyddi cadw mewn perthynas â recriwtio pobl anabl lle y rhagwelir y bydd gan 20% o'r gweithlu amhariad neu y gall ddiffinio ei hunan fel person anabl. Bydd polisi cadw swyddi Ymddiriedolaeth Shaw ac ymrwymiad y Cynllun Iaith Gymraeg i ddatblygu gweithlu dwyieithog yn ategu ei gilydd - byddant ill dau yn sicrhau y cyflawnir nod Ymddiriedolaeth Shaw o gydraddoldeb.

5.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 5.4.1** Bydd Rheolwyr, mewn ymgynghoriad â'r Is-adran Adnoddau Dynol, yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff dynodedig sy'n siaradwyr Cymraeg yn eu Hadrannau.
- 5.4.2** Lle dynodir angen am hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso gweithrediad y cynllun ac y gellir cynnig hyfforddiant addas, caiff ei ddarparu neu ei gefnogi yn unol â gofynion y gwasanaeth.
- 5.4.3** Bydd darpariaeth hyfforddiant yn cynnwys cyrsiau mewn sgiliau penodol, cyrsiau ymsefydlu mewn rhai arbenigeddau a darparu deunydd adnoddau a deunydd dysgu o bell lle bo'n briodol.

5.5 Trefniadau Gweinyddol

- 5.5.1** Bydd gan y Cynllun cymeradwyedig awdurdod llawn Ymddiriedolaeth Shaw yn ei weithrediad.
- 5.5.2** Bydd Uwch Swyddog, a enwebir gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, yn gyfrifol am sicrhau y caiff y cynllun ei weithredu ar draws Gwasanaethau Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) a bydd yn cynghori Rheolwyr ar y camau sydd eu hangen i weithredu'r cynllun.
- 5.5.3** Cyfrifoldeb: Bydd gan Reolwr Rhanbarthol Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) gyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro a gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Rhoddir cyfrifoldeb i bob un o reolwyr maes gwasanaeth unigol o fewn Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) dros weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau eu hunain. Bydd gan bawb o'r staff a'r gwirfoddolwyr gyfrifoldeb i sicrhau y bodlonir y mesurau a amlinellir yn y cynllun hwn sy'n berthnasol i'w swydd a lleoliad eu swyddfa ac y byddant yn rhagweithiol wrth eu gorfodi.
- 5.5.4** Bydd yr ymrwymadau a'r mesurau a osodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn ffurfio rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer pob aelod o staff a gwirfoddolwyr newydd. Gwneir pawb o'r staff cyfredol yn ymwybodol o'r Cynllun. Caiff canllawiau ysgrifenedig eu dosbarthu i'r holl staff newydd a'r staff presennol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o amcanion y Cynllun, sut i'w rhoi ar waith a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.
- 5.5.5** Caiff Grŵp Cyswllt Iaith Gymraeg ei sefydlu i geisio sicrhau bod gweithrediad y cynllun wedi'i gydlynu, gyda chysondeb o ran arfer a'i adolygu yn barhaus. Bydd pob adran wedi'i chynrychioli arno.
- 5.5.6** Bydd yr angen i gynhyrchu deunydd dwyieithog yn ystyriaeth wrth gynllunio a phrynu meddalwedd cyfrifiadurol. Lle na ellir addasu systemau cyfrifiadurol presennol i fodloni gofynion y cynllun, caiff yr

angen ei ddiwallu, os caniatâ'r sefyllfa ariannol, drwy adnewyddu a disodli.

5.5.7 Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn sicrhau y bydd gan unrhyw gyfieithwyr a gyflogir gymwysterau addas ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, ac y byddant yn gallu darparu gwasanaeth o safon uchel. Rhoddir cyfarwyddyd i staff ar ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a gyflogir gan Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ac asiantaethau allanol

5.6 Gwasanaethau a Ddarperir ar ran Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) gan Bartïon Eraill

5.6.1 Mae hi'n aml yn angenrheidiol i Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) gontractio gwasanaethau i asiantaethau, sefydliadau neu unigolion eraill, e.e. asiantaethau gofal, staff arlwyo. Ar adegau o'r fath caiff y corff a dderbyniodd gontract ei hysbysu o ymrwymiad Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) i'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn a bydd yn derbyn canllawiau ysgrifenedig ar y mesurau mwyaf perthnasol i'r gweithgaredd neu'r gwasanaeth yr ymgwymerir ag ef. Bydd pob staff sy'n gweithio â chontractwyr yn derbyn gweithdrefnau ysgrifenedig wrth ddelio â chontractwyr mewn perthynas â'r cynllun hwn. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn disgwyl i unrhyw gyrff neu sefydliadau sy'n ymgymryd â gwasanaethau ar ei rhan gydymffurfio gyda'r cynllun hwn yn unol â blaenoriaethau a ddynodwyd yn barod. Caiff gweithrediad y cynllun hwn gan bartïon a gontractiwyd ei fonitro gan ddefnyddio'r un dull ag a amlinellir yn adran **5.8** o'r Cynllun hwn.

5.6.2 Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant newydd sy'n ymwneud a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yr eir iddo gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â thelerau'r cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a roddir ar gontract.

5.6.3 Lle nad oes gan y cyhoedd fynediad uniongyrchol at y contractwr, o ran cwynion neu geisiadau am wybodaeth, byddai disgwyl iddynt ddelio'n uniongyrchol gydag Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) fel y Swyddog Cleient.

5.6.4 Efallai y gall y contractau neu drefniadau fod yn rhai byr ac ar gyfer tasg neu weithgaredd penodol lle nad yw'n ymarferol i fynnu cydymffurfiad llawn â'r cynllun, a gaiff ei ddiffinio i'r staff, yn yr achos hwnnw ceisir cael y cydymffurfiad llawnaf posibl dan yr amgylchiadau. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn monitro contractau neu drefniadau o'r fath i sicrhau y ceir cydymffurfiad mor llawn â phosibl gyda'r cynllun ym mhob achos. Enghreifftiau o hyn yw hurio fan, cynhyrchu arweinlyfrau ac ati.

5.7 Partneru yn y Gymuned Leol

5.7.1 Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ceisio darparu ar gyfer cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol gan ei gleientiaid, a bydd

gyda chymorth sefydliadau partner, yn creu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned ac yn genedlaethol.

5.8 Monitro

5.8.1 Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn monitro pa mor dda y mae'n bodloni'r ymrwymadau yn y cynllun hwn. Yn arbennig, caiff y materion canlynol eu hadolygu:

- Cynllunio a chaffael yn y dyfodol - sicrhau bod unrhyw bolisiâu, gweithdrefnau neu gyhoeddiadau newydd a rhaglenni cyfrifiadur perthnasol yn gyson â darparu gwasanaeth dwyieithog.
- Trefnu a darparu gwasanaethau - monitro gweithrediad y trefniadau a wnaed i ddarparu gwasanaethau Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn Gymraeg, a'u heffeithiolrwydd; monitro pa mor dda y mae'r sefydliad yn annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan bartion eraill.
- Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg - monitro amseroedd ar gyfer ymateb i ohebiaeth Gymraeg, ansawdd y gwasanaethau cyfieithu a threfniadau ar gyfer cyfarfodydd.
- Delwedd gyhoeddus Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) – monitro gweithrediad delwedd gyhoeddus Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) a chyflwyniad cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunydd argraffedig arall yn ddwyieithog.
- Staffio – monitro gweithrediad mesurau staffio a hyfforddiant a gynhwysir yn y cynllun.
- Asiantaethau a chontractwyr - Rheolwr perthnasol yn monitro darpariaeth a gweinyddiad gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) i sicrhau cydymffurfiad gyda thelerau iaith Gymraeg eu cytundebau.
- Amserlen - monitro cyflawniad o ran gweithredu mesurau yn erbyn yr amserlen yn y cynllun.
- Cwynion - monitro amllder a natur y cwynion sy'n ymwneud â gwasanaeth iaith Gymraeg Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru). Bydd pob Rheolwr yn gyfrifol am ymdrin â chwynion gan y cyhoedd yn ôl y perthnasedd i wasanaethau ei hadran/adran, yn unol â gweithdrefn cwynion Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru).
- Dylid sefydlu system i ddynodi'r galw /defnydd o'r cynllun.

- Ceisir arolygon barn cyfnodol o ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg ynglŷn ag ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg gan Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru).

5.8.2 Swyddog Monitro Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) fydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw ar gyfer monitro cydymffurfiaid y cynllun hwn:

Marilyn Morgan
Rheolwr Ansawdd a Pherfformiad
Canolfan Gweithredu Anabledd Ymddiriedolaeth Shaw,
Y Cwrt
Parc Busnes D'Arcy
Llandarcy, Castell-nedd
SA10 6EJ

Hysbysir enw'r Swyddog Monitro i aelodau eraill o'r staff, i gontractwyr ac asiantau a gyflogir gan Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ac i'r cyhoedd.

- 5.8.3** Bydd monitro'r cynllun yn weithgaredd fydd wedi ei strwythuro ac yn un parhaus ar gyfer y Swyddog uchod a bydd yn ymestyn i'r rhai hynny sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru).
- 5.8.4** Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn croesawu ac yn cofnodi awgrymiadau ar gyfer gwella, ac yn cynghori'r cyhoedd sut y dylent fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg, wrth bwy, a sut yr ymdrinnir â'u sylwadau.
- 5.8.5** Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf a gymeradwyir gan y Bwrdd, sy'n disgrifio'r cynnydd mewn gweithredu'r mesurau sydd yn y cynllun yn erbyn yr amserlen a'r safonau a gymeradwywyd, ac sy'n dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau a dderbynnir gan y cyhoedd.
- 5.8.6** Bydd y Swyddog sy'n gyfrifol am fonitro'r cynllun yn gwneud trefniadau i sicrhau adroddiadau blynyddol penodol ar berfformiad gan adrannau'r gwasanaeth, asiantau ac eraill sy'n gweinyddu gwasanaethau ar ran Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru), a bydd yn paratoi adroddiad ar berfformiad Ymddiriedolaeth Shaw o ran bodloni ei hymrwymyiadau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i aelodau priodol o'r staff a'i roi ar gael i'r cyhoedd i'w archwilio ym mhrif swyddfeydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru).

5.9 Targedau

- 5.9.1** Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn mesur gweithrediad y cynllun yn erbyn targedau a gynhwysir yn yr amserlen ddatganedig. Yn

ogystal, caiff y targed safonol ar gyfer ateb gohebiaeth a threfnu cyfarfodydd ei fonitro. Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn adolygu targedau yn flynyddol yng ngoleuni newid yn yr amgylchiadau ariannol a statudol.

5.10 Cyhoeddi Gwybodaeth

5.10.1 Yn ychwanegol at adroddiad yr Uwch Swyddog, a fydd ar gael i'w archwilio'n gyhoeddus, bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn cyhoeddi gwybodaeth yn cymharu'r perfformiad gyda'r safonau a'r targedau a nodir yn y cynllun hwn. Caiff y wybodaeth ei chyhoeddi fel adroddiad unigol cyfnodol penodol a bydd yn cynnwys:

- Canran yr atebion i ohebiaeth Cymraeg a gyflawnwyd o fewn terfynau amser datganedig.
- Canran y cyhoeddiadau priodol a gyhoeddir yn ddwyieithog.
- Perfformiad o ran bodloni terfynau amser ar gyfer prosesu hawliadau a cheisiadau a wneir yn y Gymraeg.
- Amseroedd ymateb ar gyfer trefnu cyfarfodydd yn Gymraeg.
- Canran y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle y dynodir y gallu i siarad Cymraeg.
- Cylchlythyron.

Cyfeirier hefyd at **6.2**.

5.10.2 Os na fodlonir safonau cyhoeddedig, bydd yr adroddiad yn esbonio pam a pha gamau a gymerir gan Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) i fynd i'r afael a'r mater.

6. RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN

6.1 Bydd Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'w Gynllun Iaith Gymraeg i'r cyhoedd, ei weithwyr, ac i asiantau wrth gyhoeddi'r cynllun ac yna'n barhaus. Bydd yn sicrhau bod pobl sy'n ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ymwybodol o'r cynllun a'i gynnwys a sut y gallant orau ymdrin â'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg a'u cyrchu. Hysbysir y cyhoedd o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg.

6.2 Caiff y dulliau cyhoeddusrwydd canlynol eu defnyddio:

- Hysbysiadau mewn swyddfeydd cyhoeddus, derbynfeydd ac ati
- Datganiadau i'r Wasg
- Eitemau yng nghylchlythyrau Ymddiriedolaeth Shaw "Shaw Thing", "Connect" a "Network" a bwletinau mewnol i staff Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) a chyhoeddiadau eraill megis posteri a thafenni
- Cylchredeg gwybodaeth ac arweiniad gweithwyr
- Dosbarthu copïau o'r cynllun i asiantau a chontractwyr Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru)
- Dosbarthu copïau o'r cynllun i sefydliadau eraill sydd â diddordeb

6.3 Caiff cyngor ar roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun ac i wasanaethau iaith Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ei roi i staff sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd a chyfathrebu a chydlynu gyda chontractwyr, asiantau a sefydliadau eraill y mae Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) yn ymwneud â hwy.

7. ARWEINIAD I STAFF

Rhoddir arweiniad i staff ynglŷn â sut i fodloni ymrwymïadau Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) a wneir yn y Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Caiff arweiniad ei roi i staff ar bob agwedd a gynhwysir, ond heb fod wedi eu cyfyngu i:

Arweiniad ar gyfathrebu gyda'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg, naill ai dros y ffôn, mewn gohebiaeth, ar ffurf electronig neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Arweiniad ar y defnydd o'r hunaniaeth gorfforaethol dwyieithog.

Arweiniad ar gynhyrchu deunydd wedi ei argraffu, yn cynnwys hysbysiadau cyhoeddus, hysbysebion, deunydd marchnata ac arwyddion.

8. CYNLLUN GWEITHREDU

- 8.1** Caiff gweithrediad y cynllun hwn ei fesur yn erbyn dyddiadau targed. Caiff amserlen tair blynedd ei gosod ar gyfer gweithredu. Bydd hyn yn caniatáu i Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ystyried goblygiadau cyllideb unrhyw fesurau sydd ag angen ariannu ychwanegol ar gyfer eu rhoi ar waith. Caiff yr amserlen ei hadolygu a cheisir cymeradwyaeth ac ymgynghoriad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer unrhyw newidiadau a gynigir i'r amserlen.
- 8.2** Mae'r tablau yn y ddogfen amserlen atodedig yn amlinellu amserlen Ymddiriedolaeth Shaw (Cymru) ar gyfer cyflawni'r targedau ar gyfer gweithredu'r cynllun hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r targedau yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol pryd y cynllunnir gweithredu'r mesur. Yr Uwch Swyddog dynodedig fydd yn gyfrifol am adolygu'n flynyddol weithrediad y cynllun yn ôl yr amserlen a'r targedau. Lle na chyflawnir y targedau caiff esboniad o'r rheswm pam na lwyddwyd eu cyflwyno i Reolwr Gyfarwyddwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig.